

BAVO

Ddim yn aelod o BAVO eto?

Mae aelodaeth o BAVO yn rhad ac am ddim ac yn agored i bob grŵp gwirfoddol a chymunedol cyfansoddedig. Mae aelodau'n derbyn gohebiaeth ychwanegol yn rheolaidd a phrisiau is ar gyfer cyrsiau hyfforddi, gwasanaethau ymarferol a llogi ystafelloedd.

Cyfleoedd gwirfoddoli

Mae BAVO yn darparu canolfan gwirfoddolwyr ar gyfer y fwrdeistref sirol gyfan sy'n cynnig adnodd cynhwysfawr mewn perthynas â phob agwedd ar wirfoddoli ar gyfer pob oed a gallu. Gyda thros 300 o fudiadau gwirfoddol cofrestredig yn cynnig ystod o gyfleoedd gwirfoddoli, gallwn baru eich sgiliau a'ch diddordebau chi â'r rôl wirfoddoli sy'n gweddu orau i chi.

www.bavo.org.uk

Ewch at ein gwefan ar gyfer popeth y mae angen i chi ei wybod os ydych yn bwriadu sefydlu neu redeg grŵp neu fudiad gwirfoddol. Mae gennym dros 100 o daflenni gwybodaeth, ymgynghoriadau cyfredol, newyddion am gyllid, partneriaethau, rhwydweithiau'r sector gwirfoddol a dolenni defnyddiol i wefannau eraill.



Bridgend Association of Voluntary Organisations



Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont

112-113 Heol y Fasnach, Maesteg, CF34 9DL
Ff: 01656 810400 E: bavo@bavo.org.uk
www.bavo.org.uk



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Fersiwn Saesneg ar gael ar gais.

Rhif y cwmni: 07691764
Rhif cofrestru'r elusen: 1146543
Tachwedd 2012 © BAVO

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont



**Yn gweithio gyda mudiadau gwirfoddol,
grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr
ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar
Ogwr yn rhad ac am ddim**

www.bavo.org.uk

Yn eich cefnogi, eich grymuso, eich hybu, eich dwyn ynghyd a'ch cynorthwyo CHI i chwarae rhan fwy gweithredol yn eich cymuned



Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont (BAVO) yw'r cyngor gwirfoddol sirol lleol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Sefydliad ymbarél ydym ni a sefydlwyd i ddatblygu a hybu gweithredu gwirfoddol a chymunedol ledled y fwrdeistref sirol. Ein nod yw rhoi cymorth, arweiniad, cynhorthwy ymarferol a gwybodaeth i grwpiau lleol yn y sector gwirfoddol i ddatblygu sgiliau, gwasanaethau a gweithgareddau, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli ar draws ystod eang o faterion yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

A ninnau'n sefydliad aelodaeth y gellir ymuno ag ef yn rhad ac am ddim ac sy'n agored i'r holl grwpiau gwirfoddol a chymunedol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, rydym yn rhan o rwydwaith cymorth cenedlaethol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Ydych chi:

- Yn chwilio am wybodaeth am wasanaethau gwirfoddol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr?
- Yn grŵp gwirfoddol sy'n ceisio cyngor ynghylch y cyllid sydd ar gael?
- Yn meddwl am ddechrau grŵp newydd a bod arnoch angen help i wybod sut i gychwyn arni?
- Yn rhywun ag ychydig o amser sbâr ar eich dwylo ac yn dymuno gwirfoddoli?
- Yn grŵp cymunedol neu wirfoddol sy'n dymuno recriwtio gwirfoddolwyr?
- Yn awyddus i ehangu eich profiadau dysgu trwy hyfforddiant anffurfiol?

Gall **BAVO** eich helpu gyda hyn i gyd a **MWY!**



Rydym yn cynnig arweiniad ymarferol ynghylch:



- Dechrau a rheoli mudiad;
- Cyfansoddiadau;
- Dod yn elusen;
- Cadw llyfrau a chyfrifon;
- Monitro a gwerthuso;
- Gwybodaeth am gyllid a chymorth i godi arian;
- Hyfforddiant;
- Cynllunio prosiectau a chyllidebau;
- Cymorth gyda gwirfoddoli a recriwtio;
- Adnoddau ymarferol;
- Cyngor a chymorth i ddatblygu;
- Cyfleoedd rhwydweithio a phartneriaethau.

Cefnogi...

Grymuso...

Dwyn ynghyd...